Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Tlodi ac allgáu cymdeithasol: adolygiad o dystiolaeth ryngwladol ar addysg a gofal plentyndod cynnar

**Irene Bucelli ac Abigail McKnight**
Y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol, Ysgol Economeg Llundain
Medi 2022

# Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn helpu gwella'r broses o lunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus trwy gefnogi gweinidogion ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gael mynediad at dystiolaeth annibynnol drylwyr am yr hyn sy'n gweithio, a'i rhoi ar waith.  Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr ac arbenigwyr polisi blaenllaw i gyfuno a defnyddio tystiolaeth sy'n bodoli eisoes a nodi bylchau lle mae angen cynhyrchu gwybodaeth newydd.

Mae'r Ganolfan yn annibynnol ar y llywodraeth ond yn gweithio'n agos gyda llunwyr polisi ac ymarferwyr i ddatblygu syniadau newydd ynghylch sut mae mynd i'r afael â heriau strategol ym meysydd iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, tai, yr economi a chyfrifoldebau datganoledig eraill. Mae'n:

- Cefnogi Gweinidogion Llywodraeth Cymru i nodi tystiolaeth awdurdodol ac arbenigedd annibynnol sy'n gallu helpu i lywio a gwella polisïau, cael mynediad atynt a'u defnyddio;
- Gweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus i gyrchu, cynhyrchu, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth ynghylch yr hyn sy'n gweithio wrth fynd i'r afael â'r prif heriau economaidd a chymdeithasol; ac yn
- Tynnu ar ei gwaith gyda Gweinidogion a gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo dealltwriaeth o sut gall tystiolaeth lywio a gwella'r broses o lunio polisi a gwasanaethau cyhoeddus a chyfrannu at ddamcaniaethau ynghylch llunio a gweithredu polisi.

Trwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaethau Ymchwil, mae'r Ganolfan hefyd yn helpu i feithrin gallu ymysg ymchwilwyr i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi sy'n cael effaith.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'n gwefan drwy [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

## Arianwyr Craidd

**Sefydlwyd Prifysgol Caerdydd** yn 1883.  Mae Caerdydd yn brifysgol uchelgeisiol ac arloesol sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n benderfynol o feithrin perthnasoedd rhyngwladol cadarn wrth iddi amlygu ei hymrwymiad i Gymru.

**Mae'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o Ymchwil ac Arloesedd y DU, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK ac Research England i wneud y mwyaf o gyfraniad pob cyngor a chreu'r amgylchedd gorau i ymchwil ac arloesi ffynnu.

**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru, sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol, a'r amgylchedd.

# Cynnwys


Crynodeb 4

Cefndir 5

Cyflwyniad 6

Cyd-destun polisi 6

Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi 10

Heriau a ffactorau hwyluso 18

Casgliad 19

Cyfeirnodau 22

Atodiad: Methodoleg 28

Diolchiadau 33

# Crynodeb

- Gall addysg a gofal plentyndod cynnar (AGPC) gael effaith gadarnhaol ar leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol drwy ddileu cyfyngiadau cyflenwad llafur teuluoedd a hyrwyddo ystod eang o ganlyniadau plant. Er mwyn i AGPC fod yn effeithiol, dylid mynd i'r afael ag ansawdd y ddarpariaeth ac anghydraddoldebau o ran mynediad.

- Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod hyn yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol mewn AGPC a rheoleiddio gofalus, tra gwelir bod mesurau fel gwasanaethau cyffredinol (yn hytrach na gwasanaethau wedi'u targedu), lleoedd gwarantedig a chymorthdaliadau hael, yn fwyaf effeithiol wrth gau bylchau.

- O safbwynt lleihau tlodi, mae polisïau AGPC yn ategu polisïau nawdd cymdeithasol a chyflogaeth:
    - Ar y naill law, gall argaeledd AGPC fforddiadwy wella cymhellion i weithio, ond gallai rhwystrau rhag gweithio barhau, a gallai dyluniad y system nawdd cymdeithasol greu anghymhellion rhag gweithio (e.e. ar gyfer ail enillwyr).
    - Ar y llaw arall, oherwydd dangosir bod incwm yn effeithio'n uniongyrchol ar ganlyniadau plant, gall annigonolrwydd trosglwyddiadau arian parod danseilio ymdrechion i hyrwyddo cyfleoedd plant a'u cyfleoedd bywyd drwy AGPC.

- Mae cysylltiadau rhwng AGPC a meysydd polisi yr ymdrinnir â nhw mewn adolygiadau eraill, er enghraifft:
    - **Anfantais drafnidiaeth:** Mae fforddiadwyedd, argaeledd a hygyrchedd trafnidiaeth yn cyfrannu at rwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau AGPC.
    - **Camu ymlaen yn y gwaith:** Mae mynediad at ofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel yn bwysig er mwyn lleihau cyfyngiadau'r cyflenwad llafur sy'n rhwystr allweddol rhag camu ymlaen (yn enwedig i fenywod).

- Rydym yn gorffen yr adolygiad gyda rhai camau gweithredu addawol sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â gwahaniaethau o ran mynediad:
    - Diwygio'r cynnig presennol ar gyfer 30 awr yr wythnos;
    - Asesu effaith ddosbarthiadol diwygiadau diweddar; a
    - Gwerthuso'r broses o ehangu allgymorth y cynllun Dechrau'n Deg neu ddiwygio ei ffocws daearyddol.

- O ran ansawdd, amlygir nifer o gamau gweithredu i gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynyddu sgiliau a safonau ar draws y gweithlu AGPC.

# Cefndir

Comisiynwyd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gan Lywodraeth Cymru i adolygu strategaethau, rhaglenni ac ymyriadau tlodi ac allgáu cymdeithasol ledled y byd. Fel rhan o'r gwaith hwn, comisiynwyd y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol (CASE)[1] yn Ysgol Economeg Llundain i gynnal adolygiad o'r dystiolaeth ryngwladol ar bolisïau a rhaglenni addawol a gynlluniwyd i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol ar draws deuddeg maes polisi allweddol. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar addysg a gofal plentyndod cynnar.

Dyma'r cwestiynau allweddol a ofynnwyd ym mhob un o'r deuddeg adolygiad polisi:

- Pa bolisïau, rhaglenni ac ymyriadau rhyngwladol sy'n effeithiol wrth leddfu tlodi?
- Pa briodweddau/safonau a nodweddion sy'n allweddol neu'n gyffredin i'r gwahanol ddulliau hynny?

Ymdrinnir â'r cwestiynau drwy ddarparu:

- Cyd-destun Cymru ym mhob maes polisi a phrif fentrau Llywodraeth Cymru;
- Gwybodaeth fanwl am berthynas y maes polisi dan sylw â thlodi ac allgáu cymdeithasol;
- Crynodeb o'r dystiolaeth ynghylch profiad a allai helpu i ddeall effaith polisïau ar bobl ac ymateb y bobl i bolisïau o'r fath;
- Trosolwg o'r dystiolaeth ryngwladol ynghylch effeithiolrwydd polisïau (gan gynnwys astudiaethau achos); a
- Heriau a ffactorau hwyluso sy'n gysylltiedig â rhoi polisïau ar waith.

Yn ogystal â'r deuddeg adolygiad polisi, rydym wedi llunio adroddiad trosolwg sy'n crynhoi'r dystiolaeth allweddol o bob adolygiad unigol, nodi cysylltiadau rhwng gwahanol feysydd polisi a chloriannu'r holl dystiolaeth i roi nifer o argymhellion polisi, neu gamau gweithredu addawol, ym mhob un o'r deuddeg maes. Cyfeiriwch at yr

[1] Sefydlwyd y Ganolfan Dadansoddi Allgáu Cymdeithasol (CASE) yn Ysgol Economeg a Gwyddor Wleidyddol Llundain (LSE) ym 1997. Canolfan ymchwil amlddisgyblaethol ydyw sy'n archwilio anfantais gymdeithasol a rôl polisïau cymdeithasol a chyhoeddus wrth ei hatal, ei lliniaru neu ei gwaethygu. Mae gan ymchwilwyr yn CASE brofiad helaeth o gynnal adolygiadau polisi sy'n ymdrin â thystiolaeth yn y Deyrnas Unedig a llenyddiaeth ryngwladol.

Atodiad i gael manylion am fethodoleg, gan gynnwys sut y dewiswyd y deuddeg maes polisi penodol.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o gyfres o adroddiadau a gynhyrchwyd gan WCPP fel rhan o'i gwaith ar dlodi ac allgáu cymdeithasol ar gyfer Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â'r gwaith hwn gan CASE, ceir dau adroddiad ar natur, graddfa a chyfeiriad tlodi ac allgáu cymdeithasol yng Nghymru – un yn canolbwyntio ar dystiolaeth a data meintiol, a’r ail yn canolbwyntio ar dystiolaeth o brofiad go iawn (Carter, 2022a; 2022b). Comisiynodd WCPP hefyd y Sefydliad Polisi Newydd i gynnal adolygiad o strategaethau lliniaru tlodi rhyngwladol (Kenway et al., 2022) sy'n archwilio dulliau llywodraethol cyffredinol o fynd i'r afael â thlodi.

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn adolygu tystiolaeth ryngwladol o rôl gwasanaethau addysg a gofal plentyndod cynnar (AGPC) wrth leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol. Mae fforddiadwyedd ac argaeledd AGPC yn ffactorau allweddol sy’n sbarduno tlodi plant ac maen nhw’n peri pryder arbennig yng Nghymru. Er bod y gyfradd tlodi plant yng Nghymru wedi gostwng o 33% yn 2009-2012 (JRF, 2020) i tua 31% yn 2017/18-2019/20 (Llywodraeth Cymru, 2021), teuluoedd â phlant sydd â'r gyfradd dlodi uchaf yng Nghymru (JRF, 2020) ac mae cyfraddau'n debygol o gynyddu (Carter, 2022a), gan wrthdroi'r cynnydd a wnaed ers y 1990au i bob pwrpas.

Amlygir AGPC fel ffactor allweddol sy'n effeithio ar gyflogaeth a lleihau cyfleoedd teuluoedd incwm isel i ddianc rhag tlodi (JRF, 2020). Er bod costau gofal plant yn is yng Nghymru nag yn Lloegr, maen nhw’n parhau i fod yn uchel (Coleman, 2020). Dywed 43 y cant o awdurdodau lleol yng Nghymru nad oes digon o ofal plant ar gael i rieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol (JRF, 2020) ac mae argaeledd gofal plant yng Nghymru wedi gostwng yn gyffredinol ers 2019.

# Cyd-destun polisi

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyllid ar gyfer 30 awr o ofal plant am ddim yr wythnos i blant 3–4 oed, sy'n cynnwys elfen Feithrin gyffredinol y Cyfnod Sylfaen am o leiaf 10 awr. O ran rhieni sy'n gweithio 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd ar yr isafswm cyflog, nid yw llawer o deuluoedd sydd mewn tlodi yn bodloni'r gofynion gwaith ac felly maen nhw’n cael eu heithrio gan y cynllun, ond ar yr un pryd dim ond 23% o awdurdodau lleol sy'n gallu darparu digon o ofal plant i fodloni’r hawl (JRF, 2020).

Mae AGPC yn faes polisi y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn weithgar ynddo yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan fod y 'blynyddoedd cynnar' yn un o bum blaenoriaeth drawsbynciol sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth genedlaethol *Ffyniant i Bawb* (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae AGPC yng Nghymru yn ymwneud â phlant o 0-5 oed ac mae'n cwmpasu gofal plant a'r Cyfnod Sylfaen (y bydd ei fframwaith yn cael ei ddisodli gan y Cwricwlwm newydd i Gymru). Mae gwahanol asiantaethau, cyrff a rhaglenni yn ymwneud ag AGPC, gan gynnwys:

- **Y Rhaglen Dechrau'n Deg** sydd wedi'i thargedu at ardaloedd difreintiedig ac sy'n darparu gwasanaeth ymweliadau iechyd gwell, mynediad at raglenni cymorth rhianta, cymorth ar gyfer datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu yn ogystal â gofal plant rhan-amser am ddim i blant dwy i dair oed am tua 2.5 awr y dydd yn ystod y tymor;
- **Teuluoedd yn Gyntaf** sy'n cefnogi teuluoedd mewn angen trwy gydgysylltu traws-wasanaeth ac a weinyddir ar lefel leol;
- **Rhaglen Plant Iach Cymru** ar gyfer pob plentyn 0-7 oed, sy'n canolbwyntio ar ystod eang o ganlyniadau iechyd a datblygiad plant; a'r
- Rhaglen (beilot fwy diweddar) **Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar** sy'n canolbwyntio ar ddatblygu system amlasiantaethol, fwy integredig ac ymatebol ar gyfer y blynyddoedd cynnar i hyrwyddo datblygiad plant a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd fwy cydgysylltiedig ac amserol.

Ategir ymagwedd Cymru yn benodol gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCW, 2017), yr oedd Cymru wedi'i wneud yn rhan o'i chyfraith ddomestig cyn unrhyw wlad arall yn y Deyrnas Unedig. Mae pwyslais ar AGPC hefyd yn rhan annatod o *Strategaeth Tlodi Plant Cymru* (Llywodraeth Cymru, 2015).

# Y berthynas â thlodi ac allgáu cymdeithasol

Mae gan AGPC rôl bwysig o ran lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol: ar y naill law, mae polisïau sy'n **gwrthbwyso costau gofal plant yn rhyddhau mwy o incwm gwario i deuluoedd**; ar y llaw arall, gallant **ddileu cyfyngiadau ar y cyflenwad llafur** a galluogi teuluoedd i weithio ac ennill mwy. At hynny, mae corff cynyddol o ymchwil sy'n cydnabod bod **AGPC o ansawdd uchel yn gallu gwella datblygiad gwybyddol ac emosiynol-gymdeithasol**, helpu i greu sylfaen ar gyfer dysgu gydol oes; a chynyddu symudedd cymdeithasol rhwng cenedlaethau a chyfleoedd bywyd (OECD, 2012; 2017; Carneiro a Heckman, 2003; Heckman, 2011; Penn, 2011). Mae hyn yn ychwanegu at y syniad bod cyfalaf dynol yn cael ei ffurfio trwy broses cylch

bywyd ddeinamig: mae sgiliau a galluoedd a gaffaelir mewn un cam o'r cylch bywyd yn cael effaith uniongyrchol ar gynhyrchedd addysg yn y cam nesaf (Cunha et al., 2006).

**Mae cyfraddau adenillion o fuddsoddi mewn plentyndod cynnar yn sylweddol uwch na chyfraddau adenillion o fuddsoddi yn ddiweddarach mewn bywyd** (Carneiro a Heckman, 2003). Mae hyn yn cyd-fynd â thystiolaeth ddiweddar sydd wedi amcangyfrif buddion a chostau ehangu gwasanaethau AGPC yng Nghymru, gan ddangos sut byddai buddion (sy'n deillio o enillion uwch yn ddiweddarach mewn bywyd, a gwariant is gan y llywodraeth ar iechyd a gofal cymdeithasol) yn gwrthbwyso costau i raddau helaeth ac yn cronni ymhlith y teuluoedd mwyaf difreintiedig (Wilson a Paull, 2020).

Mae incwm isel ac amddifadedd materol yn effeithio ar 'fewnbynnau' pwysig ar gyfer datblygiad plant: o dai o ansawdd da i fwyd iach, o fuddsoddi mewn deunyddiau a gweithgareddau dysgu i gymryd rhan mewn cyfleoedd cymdeithasol. **Gall AGPC helpu i sicrhau tegwch drwy ddigolledu am anfanteision gartref a chyfryngu'r broses o'u trosglwyddo**. Mae'r polisïau hyn felly'n effeithio ar sawl agwedd ar dlodi ac allgáu cymdeithasol fel y'u cysyniadolwyd gan Fatrics Allgáu Cymdeithasol Bryste (B-SEM) (gweler yr Atodiad am fwy o wybodaeth am y B-SEM) – nid yn unig mewn perthynas ag adnoddau materol, ond mewn perthynas â chyfranogiad economaidd presennol rhieni a chyfranogiad cymdeithasol, addysg a chyfranogiad economaidd plant yn y dyfodol, er bod tystiolaeth hefyd o effeithiau tymor hwy ar agweddau ar ansawdd bywyd, er enghraifft mewn perthynas â chyfraddau troseddu is a chanlyniadau iechyd (Carneiro a Heckman, 2003).

# Y berthynas â phrofiad pobl o dlodi ac allgáu cymdeithasol

Mae'r llenyddiaeth ar brofiadau a chanfyddiadau teuluoedd mewn perthynas â gwasanaethau AGPC wedi tyfu yn ystod y degawdau diwethaf, gan gynnwys o safbwynt teuluoedd difreintiedig. **Mae'r llenyddiaeth hon wedi canolbwyntio ar yr hyn sy'n sbarduno'r galw am wasanaethau AGPC**, er enghraifft dewisiadau o ran eu math a'u dwyster (Vandenbroeck, 2008; Gamble, 2009); dewisiadau gofal anffurfiol/ffurfiol (Weber et al., 2018); ansawdd canfyddedig (Forry, 2013); a hygyrchedd canfyddedig (Unver, 2018). Mae'r llenyddiaeth hefyd wedi archwilio'r ffactorau sy'n llywio profiadau rhieni yn ogystal â'r galw. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am weithdrefnau gweinyddol; rhestrau aros; arferion gwaharddol ar lawr gwlad; ac ystyriaethau ymarferol ynghylch defnyddioldeb gwasanaethau (e.e. mewn perthynas â hyblygrwydd ac oriau agor). Er enghraifft, efallai na fydd

gwasanaethau'n cael eu hystyried yn hygyrch oherwydd rhwystrau ieithyddol (e.e. ar gyfer teuluoedd mudol), tra bod profiadau o'r gwasanaeth sy'n dangos ei fod yn gefnogol ac yn addas i ofynion rhieni, gwerthoedd diwylliannol a disgwyliadau ynghylch AGPC i gyd yn cyfryngu'r galw.

Mae Vandenbroeck a Lazzari (2014) yn rhybuddio ei bod yn bwysig cysylltu dadansoddiad ar y lefel hon sy'n canolbwyntio ar brofiadau teuluoedd â dadansoddiadau lefel uwch, oherwydd bod hynny'n gallu taflu goleuni ar **y rhwystrau strwythurol sy'n wynebu rhieni ac a allai fod yn llesteirio cyfranogiad,** fel y rhai a amlinellir uchod, yn enwedig ymhlith teuluoedd incwm isel. Mae Tabl 1 yn addasu fframwaith a ddatblygwyd gan Archambault et al. (2020) sy'n amlinellu ffactorau sy'n dylanwadu ar fynediad at AGPC ar gyfer poblogaethau difreintiedig a fyddai'n bwysig i'w hystyried wrth gynllunio neu ddiwygio darpariaeth AGPC.

### Tabl 1. Ffactorau cyflenwad a galw o ran AGPC

| Ffactor | Cyflenwad | Galw |
|---|---|---|
| Hygyrchedd | Ymgyrchoedd gwybodaeth ac ymwybyddiaeth<br>Allgymorth cymunedol<br>Amrywiaeth ieithyddol<br>Technolegau gwybodaeth | Ymwybyddiaeth o fuddion, rhinweddau, costau a gweithdrefnau cofrestru (a hyder ynddynt) |
| Derbynioldeb | Hyblygrwydd<br>Sensitifrwydd diwylliannol<br>Prosesau gweinyddol | Rhwydweithiau cymdeithasol<br>Perthnasedd diwylliannol |
| Argaeledd | Agosrwydd<br>Cyflenwad digonol<br>Mynediad teg | Amodau gwaith sefydlog<br>Anghenion wedi'u cynllunio ar gyfer gofal |
| Fforddiadwyedd | Cyllid cyhoeddus a rheoli/ cymorthdaliadau cyhoeddus<br>Darparu hanfodion am ddim/â chymhorthdal | O fewn cyllideb y teulu |
| Priodoldeb | Ansawdd | Profiadau cadarnhaol |

| Ffactor | Cyflenwad | Galw |
|---|---|---|
| | Ymatebolrwydd i anghenion | Presenoldeb rheolaidd |
| | Partneriaeth gymunedol ac integreiddio gwasanaethau | Integreiddio cymunedol |

Ffynhonnell: addaswyd gan yr awduron o Archambault et al. (2020).

# Tystiolaeth o effeithiolrwydd polisi

| Ymyrraeth | Cryfder y dystiolaeth | Effeithiolrwydd |
|---|---|---|
| **Polisïau sy'n cynyddu cyfranogiad mewn AGPC** (gwella fforddiadwyedd ac argaeledd) | Cryf | Cymysg (ffactorau cyfyngol yw cyfranogiad anghyfartal yn y farchnad lafur, rhyngweithio â'r systemau treth a budd-daliadau sy'n cynhyrchu anghymhellion) |
| **Polisïau sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth AGPC** (agweddau ar ansawdd sy'n gysylltiedig â strwythurau a phrosesau) | Cryf | Effeithiol |

**Mae costau gofal plant uchel yn erydu cymhellion gwaith rhieni, yn enwedig ar gyfer teuluoedd incwm isel** – mae'r anghymhellion hyn sy'n gysylltiedig â gwaith yn y Deyrnas Unedig ymhlith yr uchaf ar draws gwledydd yr OECD ar gyfer rhieni sengl ac ail enillwyr (OECD, 2020). Felly, mae argaeledd AGPC fforddiadwy yn debygol o wella cymhellion gwaith, ond mae p’un a fydd y gwasanaethau hyn yn cynyddu'r cyflenwad llafur hefyd yn dibynnu ar ffactorau fel: ansawdd canfyddedig y gwasanaethau, normau cymdeithasol (e.e. rolau rhyw traddodiadol cryf neu ddewis ar gyfer gofal anffurfiol), ac effeithiau amnewid rhwng gofal ffurfiol ac anffurfiol (Vuri, 2016).

At hynny, **nid yw p'un a all rhieni 'fforddio gweithio' ai peidio yn dibynnu'n llwyr ar argaeledd gofal plant fforddiadwy**. Dylid ei ystyried mewn gwirionedd ar y cyd â'r system dreth a budd-daliadau: er enghraifft, gall dyluniad y system a'r gyfradd

tynnu budd-daliadau greu anghymhellion gwaith. Yn nodedig, dangoswyd bod Credyd Cynhwysol (CC) yn cynnig cymhellion gwan i weithio, yn enwedig i unig rieni ac ail enillwyr mewn cyplau â phlant (Alakeson et al., 2015; Brewer et al., 2017). Gallai costau gofal plant cyfyngedig hyd yn oed adael teuluoedd â llai o arian na phe bai un rhiant yn aros gartref pan ychwanegir beichiau treth a thynnu budd-daliadau cymdeithasol yn ôl (sy'n lleihau enillion o'r gwaith).

**Mae gwariant ar bolisïau teuluol yn gysylltiedig â chyfraddau tlodi plant is ar draws gwledydd yr OECD ac mae eu heffaith yn amrywio yn ôl y math o bolisi: mae'r cysylltiad yn gryfach ar gyfer trosglwyddiadau arian parod (fel budd-daliadau plant), ac yna gofal plant a gwariant o fath arall (llety, teithio a chymorthdaliadau bwyd i deuluoedd)** yn y drefn hon (OECD, 2019a; Richardson a Bradshaw, 2012; Richardson, 2015). Nid yw'r dulliau hyn yn cynnwys effeithiau ar gyflogaeth, sy'n debygol o gynyddu effaith polisïau gofal plant ar leihau tlodi. Mae gwahaniaethau yn y mathau o wasanaethau a ddarperir yn bwysig hefyd – er enghraifft, canfu Richardson (2015) fod systemau cyhoeddus yng ngwledydd yr OECD wedi nodi'r gostyngiad mwyaf mewn tlodi yn unol â chynnydd ychwanegol mewn gwariant ar wasanaethau.

**Mae costau'n effeithio ar effaith gofal plant ar leihau tlodi**: Mae Förster a Verbist (2011) yn amcangyfrif gwerthoedd arian parod gwasanaethau AGPC i gymharu effaith trosglwyddiadau arian parod a pholisïau gofal plant ar leihau cyfraddau tlodi mewn nifer o wledydd yr OECD. Canfuwyd bod effaith gofal plant ar dlodi ar ei gwannaf yn y Deyrnas Unedig, lle mae'r costau i deuluoedd yn uwch, nag yn Ffrainc neu'r Almaen (lle mae effaith gofal plant ar dlodi yn debyg i effaith trosglwyddiadau arian parod) neu Sweden (lle mae gwasanaethau gofal plant yn cael effaith gryfach). Wrth gyfuno arian parod a gwasanaethau gofal plant, gostyngodd cyfraddau tlodi 80% yn Sweden, 73% yn Ffrainc, 60% yn yr Almaen ond dim ond 38% yn y Deyrnas Unedig.

# Polisïau sy'n cynyddu cyfranogiad mewn AGPC

Mae nodweddion ar draws y system yn ogystal â ffactorau cyd-destunol yn effeithio ar gyfranogiad mewn AGPC. O ystyried cymhlethdod systemau AGPC, mae'n ddefnyddiol deall y nodweddion a rennir gan systemau sydd wedi llwyddo i hybu cyfranogiad a chau bylchau.

**Yn gyntaf, mae gwledydd sydd wedi llwyddo i ddarparu AGPC fforddiadwy o ansawdd uchel ar raddfa eang wedi cyfeirio adnoddau cyhoeddus sylweddol at y sector**. Mae data'r OECD (2020) yn dangos bod Gwlad yr Iâ a Sweden yn gwario

1.8% ac 1.6% o'u Cynnyrch Domestig Gros ar AGPC, yn y drefn honno. Mae'r gwledydd hyn wedi llwyddo i gynyddu cyfranogiad mewn AGPC hyd yn oed ar gyfer plant iau na 3 oed, y mae eu cyfraddau cyfranogiad yn isel ar y cyfan ar draws gwledydd. Er bod y gwledydd hyn wedi'u nodweddu gan sector cyhoeddus AGPC mawr, mae gan rai gwledydd sy'n darparu AGPC trwy gymysgedd o wasanaethau cyhoeddus a phreifat gyfraddau cofrestru ar yr un lefel â gwledydd Llychlynnaidd ond hefyd yn gweld lefelau uchel o wariant (gweler Astudiaeth Achos 1).

## Astudiaeth Achos 1. Cynyddu cyfranogiad mewn AGPC yn Korea

**Mae Korea wedi buddsoddi'n sylweddol mewn AGPC (1% o'r Cynnyrch Domestig Gros), sy'n gynnydd o ddeg gwaith mewn gwariant cyhoeddus yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, pan gyflwynwyd diwygiadau i gynyddu argaeledd AGPC (OECD, 2019b). Mae gan system Korea gymysgedd o wasanaethau cyhoeddus a phreifat a chyfuniad o wasanaethau gofal dydd mewn canolfannau a gwarchod plant yn y cartref (wedi'u targedu at blant rhwng 3 mis a 3 blwydd oed). Mae dull gwasanaeth 'cofleidiol' yn cynnwys cymorth cyhoeddus ar gyfer gwasanaethau gwarchod plant 'y tu allan i oriau', sy'n arbennig o bwysig i rieni sy'n wynebu oriau gwaith anrhagweladwy a gofynion ad hoc. Rhoddir blaenoriaeth i deuluoedd tlawd, teuluoedd ag oedolion sy'n chwilio am waith a theuluoedd mawr sydd â phlant ifanc. Mae treuliau gofal plant ymhlith yr isaf yng ngwledydd yr OECD (OECD, 2019c), a hynny o ganlyniad i gymorthdaliadau cyhoeddus sy'n cadw ffioedd yn isel, a chymorth ariannol cyffredinol sy'n lleihau costau net ymhellach (Thévenon, 2018).**

Mae dadansoddiad gan yr OECD (2020) hefyd yn nodi **y dylai buddsoddiad cyhoeddus gael ei gyfuno â rheoleiddio** er mwyn osgoi cael ei ddal gan ddarparwyr (e.e. lle mae darparwyr yn derbyn cymorthdaliadau cyhoeddus uniongyrchol ond nad ydynt yn lleihau prisiau, neu'n cynyddu ffioedd pan fydd cynnydd mewn ad-daliadau ffioedd gofal plant cyhoeddus, budd-daliadau neu ryddhad treth i rieni). Mae capiau ffioedd ar waith mewn llawer o systemau (a weithredir yn gyhoeddus yn bennaf) a gallant amrywio yn seiliedig ar allu teuluoedd i dalu. Mae systemau seiliedig ar y farchnad yn wynebu mwy o heriau oherwydd gallai safonau prisiau a osodir yn rhy isel achosi i ddarparwyr ostwng yr ansawdd neu adael y farchnad os na fydd y gwasanaeth a ddarperir yn dwyn elw.

## Gwahaniaethau o ran mynediad at AGPC

**Mae tystiolaeth gref hefyd mai'r plant a allai fod yn fwyaf tebygol o elwa o AGPC yw'r rhai sy'n lleiaf tebygol o fod yn bresennol** (OECD, 2016; Campbell, et al., 2018; Petitclerc et al., 2017). Mae hyn yn arbennig o wir am blant iau na thair oed, y mae eu cyfraddau cyfranogiad yn is ar y cyfan (OECD, 2020). Yn wir, mae mynediad at AGPC wedi'i haenu yn seiliedig ar incwm a lefel addysgol rhieni (yn enwedig y fam) yn y rhan fwyaf o wledydd – yn yr OECD, yr unig eithriadau yw Denmarc, Gwlad yr Iâ a Sweden (OECD, 2016). Mae gwahaniaethau o ran cyfranogiad mewn AGPC wedi'u cysylltu'n bennaf â chyflogaeth y fam ac mae plant yn fwy tebygol o fod â mam gyflogedig pan fydd wedi cael addysg hyd at lefel uchel a phan fydd y plentyn yn byw mewn teulu incwm uchel. Mae'r cyfranogiad anghyfartal hwn yn tanseilio effaith AGPC ar leihau tlodi a'i rôl mewn perthynas â lefelu cyfleoedd bywyd.

**Mae argaeledd yn effeithio ar fylchau cofrestru hefyd, gan fod y rhieni mwyaf breintiedig yn fwy tebygol o gofrestru os bydd prinder** diolch i rwydweithiau cymdeithasol ffafriol a gwahaniaethau mewn dwysedd chwilio (Jessen, 2020). Mae argaeledd hefyd yn ffactor pwysig sy'n sbarduno gwahaniaethau o ran mynediad rhwng cyd-destunau gwledig a threfol – er bod rhai enghreifftiau wedi'u nodi o arferion addawol i wella argaeledd mewn ardaloedd gwledig (gweler Astudiaeth Achos 2), mae anfanteision cydberthynol sydd wedi ymwreiddio mewn ardaloedd gwledig yn gwneud y rhaniad trefol/gwledig yn anodd ei bontio (OECD, 2017).

## Astudiaeth achos 2: Darpariaeth AGPC wledig yn Lithwania

**Mae gwella cyfranogiad mewn AGPC mewn ardaloedd gwledig yn amcan polisi allweddol yn Lithwania (Kvieskienė a Misiūnienė, 2011). Cyflwynwyd canolfannau amlswyddogaethol (daugiafunkcis centras) i ddarparu mynediad at ystod o wasanaethau a ddefnyddir gan deuluoedd a phlant o dan un strwythur rheoli. Mae'r gwasanaethau'n amrywio o ofal iechyd i ofal dydd, addysg cyn-gynradd a chynradd, a chyfleusterau cymunedol. Mae'r canolfannau hyn yn hwyluso mynediad at arbenigwyr sy'n gweithio mewn gwahanol sectorau ac yn gwella'r cydgysylltiad rhwng gwasanaethau. Maen nhw hefyd yn rhoi cyfle i sicrhau mwy o aliniad rhwng addysg cyn-gynradd a chynradd. Cefnogir mynediad at ganolfannau amlswyddogaethol ymhellach gan ymgyrchoedd trafnidiaeth gyhoeddus a gwybodaeth penodol, gan gynnwys am werth AGPC. Mae'r rhain yn ffactorau pwysig wrth fynd i'r afael â'r galw isel am wasanaethau AGPC mewn ardaloedd gwledig, lle mae ychydig dros hanner yr awdurdodau lleol, er enghraifft, yn darparu cymorth trafnidiaeth yn effeithiol (Bucaite-Vilke, 2021). Mae asesiad gan yr OECD (2017) yn canfod**

**bod y canolfannau amlswyddogaethol hyn yn cyflawni swyddogaeth bwysig wrth gynyddu cyfranogiad mewn AGPC mewn ardaloedd gwledig, ond mae rhwystrau'n parhau, ac mae gwahaniaethau trefol/gwledig yn fawr o hyd. Er bod y gyfradd gyfranogi mewn AGPC wedi gwella mewn ardaloedd gwledig, gan gyrraedd 40.7% yn 2020 o tua 30% ar ddechrau'r 2010au, mae'n parhau ymhell y tu ôl i'r gyfradd gyfranogi o 90.2% mewn ardaloedd trefol (Bucaite-Vilke, 2021).**

---

**Mewn ambell wlad, gan gynnwys y Deyrnas Unedig, mae incwm yr aelwyd ei hun yn chwarae rhan bwysig hyd yn oed ar ôl rheoli statws cyflogaeth y fam** (OECD, 2016). Nodweddir y gwledydd hyn gan sector preifat mawr a llai o reolaeth gyhoeddus dros ffioedd a phryd a ble y darperir gwasanaethau – sy'n cynyddu'r tebygolrwydd na fydd ardaloedd llai proffidiol yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Mae costau gofal plant yn uchel yn y gwledydd hyn hefyd.

Mae rhai astudiaethau cymharol ar draws gwledydd wedi archwilio pa bolisïau AGPC sy'n fwy tebygol o leihau bylchau mewn cyfranogiad (Gambaro et al., 2014; Petitclerc et al., 2017; Van Lancker a Ghysels, 2016). **Mae tystiolaeth bod gwasanaethau AGPC cyffredinol (yn hytrach na rhai wedi'u targedu) a gwasanaethau AGPC am ddim yn fwyaf tebygol o feithrin cyfranogiad teuluoedd difreintiedig** (Stewart et al., 2014; Petitclerc et al., 2017). Fodd bynnag, er bod y polisïau hyn yn lliniaru cyfranogiad gwahaniaethol, **mae rhai bylchau yn parhau** (Petitclerc et al., 2017; Sibley et al., 2015). Gallai'r rhain fod o ganlyniad i'r ffaith bod rhwystrau eraill (e.e. teuluoedd incwm isel sy'n cael trafferth dod o hyd i gyflogaeth ddeniadol/o ansawdd da) yn effeithio ar alw'r teuluoedd hyn am AGPC hyd yn oed pan fydd darpariaeth fforddiadwy ar gael. Hyd yn oed pan fydd galw gan rieni, mae rhywfaint o dystiolaeth y gallai bylchau barhau ar gyfer grwpiau penodol – dangosodd Jessen (2020) hyn mewn perthynas â theuluoedd mudol yn yr Almaen.

Yn gyffredinol, mae'r dystiolaeth yn tanlinellu'r ffaith bod adnoddau cyhoeddus sy'n cael eu gwario ar **bolisïau buddsoddi cymdeithasol, fel polisïau gofal plant neu absenoldeb rhiant, o fudd yn y lle cyntaf i'r rhai sydd eisoes yn cymryd rhan yn y farchnad lafur ac felly'n tueddu i lifo i deuluoedd incwm uwch.** Petai cyfranogiad ymhlith teuluoedd tlotach yn gwella, gall y polisïau hyn arwain at ganlyniadau tymor hwy i deuluoedd tlawd – fel sy'n ymddangos yn wir mewn gwledydd Llychlynnaidd (Vandenbroucke a Vleminckx, 2011). Serch hynny, **dylid ystyried bod buddsoddi mewn gwasanaethau blynyddoedd cynnar yn ategu strategaethau amddiffyn cymdeithasol digonol a deinameg y farchnad lafur.** Er enghraifft, mae gwella cyfleoedd gwaith i fenywod â sgiliau isel yn hanfodol er mwyn i'r polisïau hyn gyflawni eu rôl buddsoddi cymdeithasol yn ddigonol (Vandenbroucke a Vleminckx, 2011).

Ar yr un pryd, mae toriadau i nawdd cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig (e.e. drwy rewi budd-daliadau, cap budd-daliadau a therfyn dau blentyn) wedi effeithio'n anghymesur ar deuluoedd sydd â phlant (Kelly, 2018; Bradshaw, 2018; CPAG, 2020). Mae teuluoedd mwy o faint yn arbennig wedi gweld cynnydd sydyn mewn cyfraddau tlodi a dyfnder tlodi, ac mae tystiolaeth bod teuluoedd wedi ymateb trwy wario llai ar hanfodion (CPAG, 2020; Carter, 2022a, 2022b). Mae'r toriadau hyn wedi bod yn atchweliadol yn ofodol hefyd, gyda'r toriadau mwyaf mewn grantiau llywodraeth ganolog yn effeithio fwyaf ar ardaloedd awdurdodau lleol sydd â'r lefelau uchaf o dlodi plant (Bradshaw, 2018). Mae hyn yn peri pryder arbennig, o ystyried y dystiolaeth bod incwm ei hun yn effeithio ar ganlyniadau plant, gyda maint yr effaith yn debyg i hwnnw a nodwyd ar gyfer gwariant ar raglenni neu addysg plentyndod cynnar (Cooper a Stewart, 2013; 2017). O'r safbwynt hwn, **gall gostyngiadau mewn incwm aelwydydd a chynnydd mewn tlodi incwm danseilio ymdrechion i hyrwyddo cyfleoedd plant a chyfleoedd bywyd drwy AGPC a gwasanaethau blynyddoedd cynnar.** Mae'r diffyg cydlyniad cyffredinol hwn yn llesteirio effaith ailddosbarthol y polisïau hyn.

# Polisïau sy'n gwella ansawdd y ddarpariaeth AGPC

**Mae'r llenyddiaeth yn dangos yn gryf bod ansawdd AGPC yn hanfodol ar gyfer canlyniadau datblygiadol cadarnhaol** (Sylva, 2012; EC, 2014; OECD, 2019c). Os yw AGPC o ansawdd isel, nid yw'r effeithiau disgwyliedig yn cael eu gwireddu, a gallai rhywfaint o ddarpariaeth fod yn niweidiol i ragolygon plant hyd yn oed. Mae AGPC yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i blant o gefndiroedd ariannol difreintiedig (Ruhm a Waldfogel, 2012; Waldfogel, 2004). Er bod tystiolaeth gadarn wedi bod ers tro o effeithiolrwydd AGPC trwy dreialon wedi'u targedu ar raddfa fach (e.e. prosiect Ysgol Perry yn yr Unol Daleithiau, gweler Astudiaeth Achos 3), daw amrywiad sylweddol mewn effeithiolrwydd i'r amlwg wrth gynyddu'r raddfa, sy'n golygu ei bod yn bwysig deall nodweddion diffiniol rhaglenni o ansawdd uchel (Weiland et al., 2018; Morris et al., 2018; Yoshikawa et al., 2016).

## Astudiaeth Achos 3: Prosiect Ysgol Perry yn yr Unol Daleithiau

**Mae nifer o astudiaethau hydredol o raglenni AGPC sy'n targedu plant difreintiedig yn yr Unol Daleithiau (fel yr Abecedarian Program yn y 1970au neu Brosiect Ysgol Perry yn y 1960au) wedi sefydlu effeithiau buddiol hirdymor AGPC. Roedd Prosiect Ysgol Perry, er enghraifft, yn canolbwyntio ar blant Affricanaidd-Americanaidd difreintiedig rhwng 3 a 4 oed. Darparodd y rhaglen gwricwlwm wedi'i seilio ar gefnogi datblygiad gwybyddol ac emosiynol-gymdeithasol plant trwy ddysgu gweithredol. Er bod nifer y cyfranogwyr yn fach (123), drwy eu dilyn tan iddynt gyrraedd 40 oed, canfu Prosiect Ysgol Perry ganlyniadau cadarnhaol arwyddocaol o ran cyrhaeddiad addysgol a chyfraddau presenoldeb mewn prifysgolion, canlyniadau cyflogaeth a chyfraddau troseddu. Roedd dyluniad yr astudiaeth hefyd yn caniatáu ar gyfer amcangyfrif cyfradd adenillion sylweddol y prosiect: $16.14 fesul doler a fuddsoddwyd erbyn i'r boblogaeth sampl gyrraedd 40 oed (Schweinhart et al., 2005; Heckman, 2010).**

Dangosir bod amrywiaeth o ffactorau'n gwella ansawdd ac effeithiolrwydd AGPC o ran amrywiaeth o ganlyniadau (UNESCO, 2007; OECD, 2019d, Slot, 2018, Ulferts et al 2019; EC, 2014). Gellir rhannu'r rhain rhwng nodweddion **'strwythurol'** a **'phroses'** .

Mae nodweddion strwythurol yn cynnwys:

- Cymarebau plant/staff bach.
- Grwpiau bach.
- Dulliau rheoleiddio a monitro cydlynol – gyda thystiolaeth yn cyfeirio at bwysigrwydd ymgorffori'r rhain mewn prosesau cyfranogol ac ymgynghorol gydag ymarferwyr a theuluoedd (EC, 2014).
- Staff a rheolwyr â chymwysterau uchel, h.y. cymwysterau addysgu proffesiynol lefel 5, TAR neu lefel gradd (Sylva et al., 2012; OECD, 2019d).
- Dangosir bod datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a hyfforddiant seiliedig ar ymgysylltu gweithredol, cyfnewid rhwng cymheiriaid a mabwysiadu fframwaith gwyddonol a rennir yn effeithiol nid yn unig mewn gwledydd sydd ag AGPC sefydledig a gofynion uchel ar gyfer cymwysterau ymarferwyr, ond hefyd mewn gwledydd lle mae AGPC yn cael ei chymorthdalu'n wael ac mae'r gofynion cymwysterau yn isel (Slot, 2018; Peleman et al, 2018).

Mae nodweddion proses yn cynnwys:

- Perthynas gadarnhaol rhwng staff a phlant (e.e. rhyngweithiadau sy'n gefnogol yn emosiynol).
- Perthynas gadarnhaol rhwng staff a rhieni (e.e. hyrwyddo cyfranogiad cryf gan rieni).
